

AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG

Enw:

LPU:

Lleoliad:



Heddlu
Gwent
Police

FFURFLEN GAIS

CADÉT GWIRFODDOL YR HEDDLU HEDDLU GWENT

Ar ôl ei chwblhau, dylech ddychwelyd y ffurflen gais i: centralrecruitment@gwent.pnn.police.uk

Ble gwnaethoch chi glywed am y cyfle hwn?:

Cyfryngau Cymdeithasol
Gwent

Y Wasg Leol

Ffrindiau/Teulu

Arall

FFURFLEN GAIS

CADÉT GWIRFODDOL YR HEDDLU

Mae'n hanfodol eich bod yn darllen yr holl ganllawiau. Dylech gwblhau pob adran o'r ffurflen hon eich hun, mewn inc du neu drwy deipio. Dim ond lle y caniateir i chi ddefnyddio tudalennau parhad y dylech wneud hynny a dylech nodi'n glir at ba gwestiynau y maent yn cyfeirio. Rhowch eich enw llawn ar frig pob tudalen parhad. Dylech roi Dd/b yn glir yn yr adrannau nad ydynt yn berthnasol i chi.

DEDDF DIOGELU DATA 1998

Caiff y wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais hon ei chadw mewn system ffeilio â llaw ac ar system recriwtio gyfrifiadurol ac, fel y cyfryw, caiff ei diogelu gan y rheolau a geir yn Neddf Diogelu Data 1998. Caiff y wybodaeth ei ddefnyddio i asesu eich addasrwydd i ymuno â'r Heddlu a gellir ei rhannu â Heddlu'r DU o ran unrhyw geisiadau recriwtio a wnewch.

Os hoffech chi dderbyn gohebiaeth ynglŷn â'ch cais yn Gymraeg, ticiwch yma



ADRAN 1 : AMDANOCH CHI

MANYLION PERSONOL		
Cyfenw	Cyfenw genedigol (os yw'n wahanol) Unrhyw gyfenw arall	
Enw(au) cyntaf	Teitl (Mr, Ms, Mrs, Miss)	
Dyddiad geni	Oedran	Tref, Sir a Gwlad enedigol
Cyfeiriad presennol		
Cod post	Dyddiad deiliadaeth	
Cyfeiriad e-bost (dyma fydd ein prif ddull cysylltu)		
Rhifau ffôn	Cartref	
	Ffôn symudol	
	Gwaith (os yw'n gyfleus)	
Rhif Yswiriant Gwladol		
MANYLION PENODI CADETIAID: Sylwer bod nifer ddynodedig o swyddi o fewn pob Ardal Blismona Leol: Ar hyn o bryd: Casnewydd (Llysweri), Torfaen (Pont-y-pŵl), Caerffili (Ystrad Mynach), Blaenau Gwent (Glyn Ebwy) a Sir Fynwy (Y Fenni).		
Rhowch y tair ardal sydd orau gennych ac y byddech yn eu hystyried yn addas os cewch gynnig swydd fel Cadét gyda Heddlu Gwent.		
Dewis 1.	Dewis 2.	Dewis 3.

YSGOL NEU WEITHLE PRESENNOL

Enw'r Pennaeth neu'r Cyflogwr, cyfeiriad, gan gynnwys cod post a rhif ffôn

Os ydych yn gyflogedig, y swydd a ddelir

ANABLEDD

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn person anabl ym mhob maes cyflogaeth, gan gynnwys recriwtio. Mae'r Heddlu yn croesawu pobl sydd ag anableddau, a bydd yn gwneud ei orau i addasu'r trefniadau gwaith a/neu'r amgylchedd gwaith cyn belled a'i bod yn rhesymol gwneud hynny o dan yr amgylchiadau.

A oes anabledd gennych yr hoffech i ni fod yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd? OES NAC OES

Er mwyn ategu eich cais, rhowch fanylion, a rhowch wybod i ni os ydych yn credu y dylem wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i wneud y swydd neu i'ch helpu gyda'ch cais.

CENEDLIGRWYDD

Beth yw eich cenedligrwydd?

Os ydych yn ddinesydd o'r Gymanwlad neu'n wladolyn tramor, a ydych yn aros yn y DU heb gyfyngiadau?
YDW NAC YDW

Os ydych yn ddinesydd o'r Gymanwlad neu'n wladolyn tramor, mae'n rhaid i chi gynnwys copi o'ch pasbort sy'n dangos eich bod yn aros yn y DU heb gyfyngiadau.

A ydych wedi amgáu llungopi o'ch pasbort? YDW NAC YDW

COLLFARNAU A RHYBUDDIADAU

A ydych erioed wedi cael eich collfarnu am unrhyw drosedd neu wedi cael rhybuddiad ffurfiol gan yr Heddlu am unrhyw drosedd, neu wedi cael eich rhwymo gan unrhyw lys? (Dylech gynnwys pob collfarn traffig, cerdyn melyn ac ymddangosiad gerbron llys milwrol, ac unrhyw rybuddiad fel person ifanc) YDW NAC YDW

Os mai YDW yw eich ateb, rhowch y manylion llawn isod.

Dyddiad (y mwyaf diweddar yn gyntaf)	Trosedd/Trosedd Honedig	Canlyniad (os yw'n hysbys)	Llys/Gorsaf Heddlu dan sylw

A ydych erioed wedi bod yn rhan o ymchwiliad troseddol (p'un a arweiniodd hyn at erlyniad ai peidio) neu wedi bod yn gysylltiedig â throseddwyd? YDW NAC YDW

Os mai YDW yw eich ateb, rhowch fanylion isod.

TATŴAU

A oes gennych unrhyw datŵau?

OES

NAC OES

Os mai OES yw'r ateb, disgrifiwch eu natur a'u lleoliad.

AELODAETH O BLAID GENEDLAETHOL PRYDAIN (BNP) NEU SEFYDLIAD TEBYG

A ydych yn aelod o'r BNP neu sefydliad tebyg, neu erioed wedi bod yn aelod o'r BNP neu sefydliad tebyg, sydd â chyfansoddiad, nodau, amcanion neu ddatganiadau a all fod yn groes i'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol?

YDW

NAC YDW

CYFEIRIADAU BLAENOROL

Rhowch bob cyfeiriad lle rydych wedi byw yn ystod y pum mlynedd diwethaf. **Dechreuwch gyda'r mwyaf diweddar.** Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen ac atodwch hi i'r dudalen hon.

Cyfeiriad llawn (gan gynnwys cod post)

Dyddiadau bras

o (mis/blwyddyn)

i (mis/blwyddyn)

Cyfeiriad 1

Cyfeiriad 2

Cyfeiriad 3

EICH TEULU

Dywedwch wrthym am eich teulu (lle bynnag maent yn byw) ac am unrhyw oedolion eraill sy'n byw yn eich cyfeiriad. Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen ac atodwch hi i'r dudalen hon. **Cwblhewch bob adran neu caiff eich cais ei oedi. *NODWCH ENWAU CYN PRIODI.**

Perthynas â chi (dilêwch fel y bo'n briodol)	Enw llawn (gan gynnwys cyfenwau blaenorol ac enw genedigol, os yw'n wahanol)	Dyddiad geni	Man geni Tref, Sir, Gwlad	Cyfeiriad llawn (gan gynnwys cod post)
Eich priod neu'ch partner				
Eich tad				
Eich llystad neu bartner eich mam				
Eich mam				
Eich llysfam neu bartner eich tad				
Eich brawd neu'ch chwaer (cyfan/hanner/llys ac ati)				
Eich brawd neu'ch chwaer (cyfan/hanner/llys ac ati)				
Eich brawd neu'ch chwaer (cyfan/hanner/llys ac ati)				
Eich brawd neu'ch chwaer (cyfan/hanner/llys ac ati)				
Mam/llysfam ac ati eich priod neu'ch partner				
Tad/llystad ac ati eich priod neu'ch partner				
Eich plentyn/plentyn eich partner (dim ond os yw'n 10+ oed)				
Eich plentyn/plentyn eich partner (dim ond os yw'n 10+ oed)				
Eich plentyn/plentyn eich partner (dim ond os yw'n 10+ oed)				
Oedolion eraill sy'n byw yn eich cyfeiriad (e.e. lojer)				

GEIRDAON

Rhowch enw llawn, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn **Pennaeth eich ysgol/tiwtor coleg.**

Canolwr:

Enw

Cyfeiriad

Swydd

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

ADRAN 2 : DATGANIAD

Rwy'n datgan bod yr holl ddatganiadau a wnaed yn y cais hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred ac nad oes unrhyw wybodaeth berthnasol wedi cael ei chadw'n ôl.

Deallaf y canlynol:

- Mae'n rhaid i mi roi gwybod i'r Adran Recriwtio am unrhyw newid yn fy amgylchiadau yn ddi-oed.
- Bydd gwiriadau'n cael eu cynnal am gollfarnau troseddol yn fy erbyn i ac aelodau o'm teulu ac maent yn gwybod hynny.
- Mae'r Prif Swyddog yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais heb roi rhesymau.
- Mae'r wybodaeth uchod yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- Rwy'n deall, os bydd fy nghais yn llwyddiannus, bod yn rhaid i mi gydymffurfio ag amodau cynllun Cadetiaid Gwirfoddol Heddlu Gwent.

Llofnod Dyddiad.....

ADRAN 3 : AMODAU GWASANAETH A CHYDSYNIAD RHIENI

- Bydd Cadetiaid yn mynychu ar adegau penodedig i gael hyfforddiant. Os na allant fynychu am unrhyw reswm, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Swyddog Hyfforddi ymlaen llaw.
- Byddant yn cynnal safonau prydlondeb, taclusrwydd a disgyblaeth uchel.
- Byddant yn cydymffurfio â'r gyfraith bob amser.
- Ni fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau sy'n debygol o amharchu Cadetiaid Gwirfoddol Heddlu Gwent.

CYDSYNIAD RHIENI (ar gyfer ymgeiswyr o dan 18 oed)

- Fi yw rhiant/gwarcheidwad
- Rwyf wedi darllen y ffurflen gais hon ac yn datgan bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- Rwyf wedi darllen yr amodau gwasanaeth.
- Rwy'n caniatáu i fy mab/merch ymuno â chynllun Cadetiaid Gwirfoddol Heddlu Gwent.

Enw llawn y rhiant/gwarcheidwad

Llofnod Dyddiad.....

FFURFLEN MONITRO'R GYMRAEG

Enw: Dyddiad Geni:

Gallu yn y Gymraeg	
	Ystyriwch eich gallu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn swyddfa, wrth ymgymryd â dyletswyddau gweithredol, wrth Ddesg Gorsaf yr Heddlu neu wrth ddesg derbynfa, dros y ffôn, mewn cyfarfodydd neu wrth ymdrin â'r cyfryngau. Dewiswch y lefel sy'n disgrifio eich gallu orau.
<input type="checkbox"/> Lefel 1	Cyfarch, cyflwyno a dechrau a gorffen sgysiau. Ynganu enwau lleoedd, enwau cyntaf ac anwyddion yn gywir. Adnabod adrannau, lleoliadau a rhengoedd. Rhoi a derbyn manylion personol. Dechrau a therfynu cyfarfodydd ac ysgrifennu ceisiadau syml.
<input type="checkbox"/> Lefel 2	Deall hanfod sgwrs ac ymateb i geisiadau syml. Cyfleu gwybodaeth sylfaenol a throsglwyddo galwadau ffôn. Cyfrannu'n rhannol mewn cyfarfodydd. Ysgrifennu nodiadau syml yn gofyn am bethau.
<input type="checkbox"/> Lefel 3	Deall llawer mewn swyddfa neu gyfarfod. Cymryd manylion a throsglwyddo negeseuon. Sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ac ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cyflwyno'n rhannol yn Gymraeg mewn cyfarfodydd. Ysgrifennu memos a negeseuon e-bost anffurfiol ac ymdrin â cheisiadau arferol.
<input type="checkbox"/> Lefel 4	Cyfrannu'n effeithiol a rhoi cyflwyniadau mewn cyfarfodydd. Ymdrin ag ymholiadau a chwynion cymhleth. Cyfweld neu holi yn ystod ymchwiliad. Ymdrin yn hyderus â chwestiynau a gwrthdaro gelyniaethus. Llunio adroddiadau a chymryd nodiadau llawn a chywir.
<input type="checkbox"/> Lefel 5	Cyfrannu'n effeithiol a rhoi cyflwyniadau mewn cyfarfodydd. Ymdrin ag ymholiadau a chwynion cymhleth. Cyfweld neu holi yn ystod ymchwiliad. Ymdrin yn hyderus â chwestiynau a gwrthdaro gelyniaethus. Llunio adroddiadau a chymryd nodiadau llawn a chywir. Cyfweld ag ymgeiswyr am swyddi ac asesu eu haddasrwydd.
<input type="checkbox"/>	Dim gallu yn y Gymraeg.

DS: Gellir prosesu'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon â llaw neu gan gyfrifiadur, felly mae'n destun Deddf Diogelu Data 1998.